# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(155)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Dirprwy Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 14.16

**Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** Ymhellach i drafodaethau cychwynnol â'i berchnogion, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch hyfywedd Unity Mine yn y dyfodol, yn dilyn cadarnhad ei fod wedi gwneud cais i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.19

**Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor**

Dechreuodd yr eitem am 14.37

**NNDM5335 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ann Jones (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn lle Ken Skates (Llafur).

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.38

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol

Dechreuodd yr eitem am 15.25

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Bysiau Arriva Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.52

## 6 Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: "Cydweithio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru - Adolygiad Cymru 2012-13"

Dechreuodd yr eitem am 16.21

**NDM5327 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 'Cydweithio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella safon ac argaeledd gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i annog dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod aelodaeth byrddau'r sector cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn fwy cywir.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn cyfleoedd gwaith o bob math.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5327 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 'Cydweithio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella safon ac argaeledd gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.

Yn cydnabod yr angen i annog dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod aelodaeth byrddau'r sector cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn fwy cywir.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn cyfleoedd gwaith o bob math.

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13

Dechreuodd yr eitem am 17.09

**NDM5326 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Medi 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn a mynd i'r afael â hyn, boed hwnnw'n gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5326 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Medi 2013.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn a mynd i'r afael â hyn, boed hwnnw'n gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:07

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 16 Hydref 2013**